# Cynnwys


Rhaglen 2

2 - Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a’r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol 8

4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 9

6 - Diweddaru Geiriad Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat 12

Atodiad 1 13

7. Adroddiad Ffioedd Arfaethedig Trwyddedau Cerbydau Hacni, Hurio Preifat a Gweithredwyr 26

Atodiad 1 28

Atodiad 1a 31

Atodiad 2 32

Atodiad 3 33

Atodiad 4 37

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# GENERAL LICENSING COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD LLUN, 15 MEDI 2014**

**(AR DERFYN Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG)**

**MONDAY, 15 SEPTEMBER 2014**

**(AT THE END OF THE CENTRAL LICENSING COMMITTEE)**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA,**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 8.9.2014

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

**GENERAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**<u>Plaid Cymru (7)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

Sedd wag / vacant seat

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**<u>Llais Gwynedd (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones

Dilwyn Lloyd Peter Read

**<u>Aelod Unigol (1)</u>**

Y Cynghorydd / Councillor

Louise Hughes

**<u>Aelod Ex-officio/Ex-officio Member</u>**

Is-Gadeirydd y Cyngor/Vice-Chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2014/15

**2. CADEIRYDDIAETH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG A'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwyno adroddiad gan Yr Uwch Gyfreithiwr

(copi yma papur **gwyrdd**)

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2014/15

**4. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2014 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**8. DIWEDDARU GEIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **pinc**)

**9. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **melyn**)

# AGENDA

**1. ELECT CHAIRMAN**

To elect a Chairman for 2014/15

**2. CHAIRING THE CENTRAL LICENSING COMMITTEE AND THE GENERAL LICENSING COMMITTEE**

To submit the report of the Senior Solicitor

(copy herewith **green** paper)

**3. ELECT VICE – CHAIRMAN**

To elect a Vice-chairman for 2014/15

**4. WELCOME AND APOLOGIES**

To receive any apologies for absence

**5. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION**

To receive any declaration of personal interest.

**6. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**7. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee, held on 23 June 2014, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** enclosure)

**8. MINOR AMENDMENTS TO THE WORDING OF THE HACKNEY & PRIVATE HIRE VEHOCLES LICENSING POLICY**

To submit the report of the Head of Regulatory Department

(copy herewith – **pink** paper)

**9. PROPOSED HACKNEY CARRIAGE, PRIVATE HIRE AND OPERATORS LICENCE FEES**

To submit the report of the Head of Regulatory Department

(copy herewith – **yellow** paper)

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** |
| **Dyddiad :** | **15 Medi 2014** |
| **Teitl :** | **Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr** |
| **Gweithredu :** | **Ystyried yr opsiynau** |

**1. Cefndir**

1.2 Yn ei gyfarfod diwethaf, mynegodd y Pwyllgor ei anfodlonrwydd nad oedd yn medru ethol yr un aelod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

1.3 Sefydlwyd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i ymdrin â materion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae'n ofynnol yn statudol i sefydlu'r pwyllgor hwn, ond ni all ystyried unrhyw fater arall. Fel canlyniad sefydlodd y Cyngor y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i benderfynu ar faterion trwyddedu eraill.

1.4 Yn gyfansoddiadol felly maent yn ddau bwyllgor gwahanol sy'n cynnal cyfarfodydd ar wahân . Serch hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu y bydd y ddau bwyllgor yn cynnwys yr un pymtheg aelod, ac mae hynny wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

1.5 Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn darparu na all yr un aelod fod yn gadeirydd ar fwy nag un pwyllgor. O dan y Cyfansoddiad presennol felly rhaid penodi dau aelod gwahanol i gadeirio'r pwyllgorau.

1.6 Efallai yr hoffai'r pwyllgor ystyried, gan fod aelodaeth y pwyllgorau yn gyfansoddiadol yr un fath, os byddai budd i ganiatáu'r un aelod i gadeirio'r ddau bwyllgor.

1.7 Pe bai'r Pwyllgor o blaid yr opsiwn yma, byddai'n golygu diwygio'r Cyfansoddiad a byddai'n rhaid cyflwyno'r argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

**2. Argymhelliad**

2.1 Gofynnir am farn y pwyllgor.

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 23.06.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, W.Tudor Owen, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

*********

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor (Rhan 4/ Rheolau Gweithdrefn/10 Para 1,2 a 5) nodir: 'Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor 'os yw'r personau a benodwyd yn absennol, rhaid i gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor benodi, o blith yr aelodau pleidleisiol sydd yn bresennol ac sydd yn aelodau o'r Cyngor, rywun i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw'

Amlinellodd Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith yr angen i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Y trefniant a welwyd dros y cyfnod 2012 - 2014 oedd bod un Cadeirydd yn cadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Er hynny, tynnwyd sylw'r Aelodau bod rhaid ymdrin â'r ddau bwyllgor fel dau bwyllgor ar wahân (er mai'r un yw'r aelodaeth). Nodwyd mai un lwfans fydd ar gael ar gyfer y Pwyllgorau Trwyddedu.

Er mwyn ymdrin â'r mater mewn modd priodol, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer trafod y mater mewn manylder yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu 15.9.14.

**Yn unol â'r rheol uchod, etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yma yn unig.**

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Llywarch Bowen Jones, Chris O'Neal, Peter Read

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim eitem i'w hystyried

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014, fel rhai cywir.

## 5. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cynnig i godi holl ffioedd tacsis gan 19.78%. Nodwyd y bydd y cynnydd arfaethedig yn amodol ar ymgynghoriad statudol gyda'r diwydiant tacsis a bydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.

Amlinellwyd y byddai rhaid i'r ffioedd a godi'r fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw gosod y ffioedd ar lefel i alluogi adennill costau llawn neu'n rhannol.

Mewn adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 24.6.2013, argymhellwyd cynnydd o 25% ar holl ffioedd tacsis gyda chynnydd pellach er pwrpas symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15.

Yn dilyn ymgynghoriad uniongyrchol gyda'r diwydiant tacsis, bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod nesaf (15.9.2014) a bydd rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, nododd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) gostau Gwynedd (£260.52) o gymhaur â Siroedd eraill yng Nghymru, oedd yn amrywio o Fôn (£196.00) i Abertawe (£399.00).

Nododd yr Aelodau bod rhaid, wrth ymgynghori gyda'r diwydiant tacsis, egluro'r sefyllfa yn glir gyda chais i'r Uned Gyfathrebu ymgysylltu yn effeithiol gyda'r diwydiant a'r cyhoedd i hyrwyddo bod y Cyngor wedi cadw costau yn isel dros y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabuwyd bod y sefyllfa yn un anodd a bod y cynnydd yn un sylweddol. Er hynny, nid oedd modd cario'r golled ariannol. Rhaid gwarchod y gwasanaeth er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r diwydiant.

Cynigiwyd ac eiliwyd anfon gwybodaeth o'r costau cymharol yng Nghymru at Aelodau'r Pwyllgor ac i'r diwydiant tacsis.

Cynigiwyd ac eiliwyd i swyddogion yr uned drwyddedu edrych i mewn i opsiynau hyblyg i gyfarch anghenion yr ymgeiswyr i dalu am drwydded.

Cynigiwyd ac eiliwyd i wahodd yr Aelod Cabinet John Wyn Williams i'r cyfarfod nesaf ar Fedi 15fed 2014.

**PENDERFYNWYD**

- **Cefnogi argymhelliad Pennaeth Adran Rheoleiddio i godi'r ffioedd yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad statudol.**

- **Dosbarthu gwybodaeth gymharol i Aelodau'r Pwyllgor a'r diwydiant tacsis**

- **Gofyn i'r Adran Drwyddedu ystyried opsiynau hyblyg i gyfarch anghenion yr ymgeiswyr wrth dalu am drwydded**

- **Gwahodd yr Aelod Cabinet i'r cyfarfod nesaf**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45a.m. a daeth i ben am 11.45am

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **DIWEDDARU GEIRIAD POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CEFNDIR**

Fe fabwysiadwyd y polisi cyfredol trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat ar y 22/10/2010; ac fe ddaeth i rym ar y 1af o Ragfyr 2010.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi bod yn ymchwilio i ddiwygio'r gyfraith mewn perthynas â thrwyddedu tacsis ers 2012 ac mae Cyngor Gwynedd fel pob Awdurdod Trwyddedu arall wedi disgwyl am ganlyniad ymchwil adroddiad y Comisiwn yng nghyd-destun diwygio polisïau tacsis. Fe gyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Mai'r flwyddyn hon ynghyd a Mesur Drafft Cerbydau Tacsi a Hurio Preifat.

Yn y cyfamser, mae Bil Dadreoleiddio llywodraeth San Steffan yn cyflwyno rhai mesurau arfaethedig mewn perthynas â thrwyddedu tacsis. Cyflwynir newidiadau arfaethedig mewn perthynas â materion megis hyd trwydded gyrwyr a Gweithredwyr Cwmnïau Tacsis yn ogystal â chyflwyno proses o ganiatáu cytundebau is - gontractio gyrru cerbydau gan Weithredwyr.

Unwaith fydd y sefyllfa yn glir o safbwynt adnabod pa rai o’r mesurau arfaethedig sydd yn debygol o ymddangos yn derfynol ar y llyfr statud mewn perthynas â chyfraith trwyddedu tacsis; fe fydd Cyngor Gwynedd fel pob Awdurdod Lleol arall yn mynd ati i ymgynghori ar adolygu’r polisi yn llawn.

Yn y cyfamser; mae angen gwneud man newidiadau i eiriad y polisi er mwyn ei ddiweddaru i gyd fynd a threfniadau gweinyddu prosesau trwyddedu tacsis cyfredol.

**MANYLION Y NEWIDIADAU**

Mae’r newidiadau yn cynnwys –

- Dileu manylion pwyntiau cyswllt swyddogion yr Uned Drwyddedu nad ydynt yn gyfredol bellach
- Newid pob cyfeiriad at ‘drwyddedai cerbyd’ i ‘berchennog cerbyd’

Yn ogystal â hyn mae cymal (d) o amod 9 yn cael ei ddileu yn ei gyfanrwydd gan fod yn cyfeirio at broses o drosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall. Fe dderbyniwyd cyngor cyfreithiol yn ddiweddar i beidio caniatáu trosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall gan nad oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth berthnasol i ganiatáu proses o’r fath.

Gweler yr atodiad am gopi o’r polisi diwygiedig.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i’r Pwyllgor gymeradwyo’r man newidiadau i eiriad y Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.**

Atodiad 1

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRAN RHEOLEIDDIO - GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

## POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI/ HURIO PREIFAT

## MAE FERSIWN SAESNEG O'R POLISI HWN AR GAEL

**MABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR - 22.10.2010**
**DECHRAU - 1.12.2010.**
**DIWEDDARWYD - 6.7.2014**

**TRWYDDED CERBYD HACNI/ HURIO PREIFAT - AMODAU SAFONOL Y DRWYDDED**

**A - STATWS CYFREITHIOL**

1. Gwnaed yr Amodau hyn yn unol ag Adrannau 47 a 48, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac fe'u mabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd ar yr 22ain o Hydref 2010 a nodir unrhyw ddiwygiadau dilynol ble bo'n briodol yn ôl eu dyddiad.

2. Gall torri un neu fwy o'r Amodau hyn arwain at wahardd, diddymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded, yn unol ag Adran 60 y Ddeddf hon.

**B - DEHONGLIAD**

1. Yn yr Amodau hyn, bydd y geiriau a ganlyn yn cyfeirio at yr hyn a nodir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| "Deddf 1847" | - | Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 |
| "y Ddeddf" | - | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. |
| "y Cyngor" | - | Cyngor Gwynedd |
| "y drwydded" | - | trwydded a ganiateir ar gyfer cerbyd hacni wedi'i chaniatáu yn unol ag Adran 37 Deddf 1847 neu drwydded a ganiatawyd ar gyfer cerbyd hurio preifat yn unol ag Adran 48 y Ddeddf. |
| "y perchennog" | - | perchennog y cerbyd trwyddedig. |
| "cerbyd hurio preifat" | - | cerbyd y mae angen trwydded ar ei gyfer dan Adran 48 y Ddeddf. |
| "cerbyd hacni" | - | cerbyd y mae angen trwydded ar ei gyfer dan Adran 37 Deddf 1847. |
| "rhif y drwydded" | - | y rhif a gyflwynir gan y Cyngor ar gyfer trwydded a ganiateir ar gyfer cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni. |
| "cerbyd trwyddedig" | - | cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni. |
| "cerbyd arbenigol" | - | Limwsîn Hir /Injan Dân sydd â'r gallu i gario hyd at uchafswm o wyth teithiwr. |

| | | |
|---|---|---|
| “plât y cerbyd” | - | y plât a ddarperir gan y Cyngor i’w osod ar gerbyd hacni yn unol ag Adran 38 deddf 1847 ac ar gerbyd hurio preifat yn unol ag Adran 48(5) y Ddeddf. |
| “BCF” | - | *bromo-chloro-difluoro-methane.* |

2. Dehonglir bod cyfeiriad at genedl enw gwrywaidd yn gyfeiriad at genedl enw benywaidd hefyd ble bo hynny'n briodol.

3. Bydd yr holl eiriau a brawddegau eraill a ddefnyddir yn yr Amodau hyn yn golygu'r ystyr a roddir iddynt (os o gwbl) yn y Ddeddf yn Neddf 1847.

**<u>CYFFREDINOL:</u>**

(a) Rhaid i bob cerbyd sydd i’w drwyddedu’n Gerbyd Hurio Preifat am y tro cyntaf, fod o dan chwe blwydd oed pan mae’n cael ei drwyddedu.

(b) Rhaid i bob cerbyd sydd i’w drwyddedu’n gerbyd hacni yn Nwyfor a Meirionnydd am y tro cyntaf fod o dan chwe blwydd oed pan mae’n cael ei drwyddedu.

(c) Rhaid i bob cerbyd sydd i’w drwyddedu fel cerbyd Hacni yn Arfon am y tro cyntaf, fod o dan 3 blwydd oed pan mae’n cael ei drwyddedu; ac yn gerbyd gyda mynediad cadair olwyn o’r ochr.

(d) Yn Arfon, mae’r 98 platiau a gyflwynwyd gyntaf yn parhau â’u ‘Hawliau Taid’, hyd nes bydd y plat(iau) yma wedi ei ildio neu ei diddymu

(e) Fe fydd uchafswm oedran o 12 mlynedd ar y cerbydau hyn.

(f) Ar ôl deng mlynedd wedi cofrestriad cyntaf y cerbyd, bydd y cerbyd hwnnw'n destun prawf MOT blynyddol, ynghyd â Gwiriad Mecanyddol dwywaith y flwyddyn gan Gyngor Gwynedd, o hynny ymlaen.

(g) Cedwir PARTHAU Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fel y maent ar hyn o bryd.

(h) Bydd pob cerbyd – Hacni a Hurio Preifat, yn derbyn Llyfr Log Cynnal a Chadw, gan berchnogion perthnasol y cerbyd. Bydd y llyfr hwn yn y cerbyd pob amser a bydd ar gael i’w archwilio ar gais Swyddog Awdurdodedig o’r Cyngor neu o’r Heddlu. **Bydd y Llyfr Log Cynnal a Chadw yma yn cynnwys cofnodion dyddiol o’r ymchwiliadau canlynol** – Ymchwiliad corfforol o’r peiriant; Rheiddiadur; Olew; Cyflwr corfforol; Teiars; Blwch cymorth cyntaf; Diffoddwr tan.

(i) Bydd y Drwydded Cerbyd Hacni neu Hurio Preifat yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad y’i cyflwynir.

(j) Bydd angen i gerbydau sydd yn cludo Cadair Olwyn fod ar gallu i glampio/ cyd-nerthu'r Gadair Olwyn yn saff oddi fewn y cerbyd ac yn ychwanegiad i hyn bu i breswylydd y Gadair Olwyn gael ei gyd-nerthu'n saff gyda gwregys gyfreithlon.

(k) Mae Cynllun Pwyntiau Cosb yn awr yn bodoli fydd yn cosbi unrhyw droseddu o unrhyw reol; amod; deddfiad yn ymwneud a Pherchennog neu Gerbyd.(Copi ynghlwm).

## RHAN C - YR AMODAU

1. Pan fo angen i berchennog drosglwyddo ei ddiddordeb mewn cerbyd trwyddedig i berson nas enwir ar y drwydded, rhaid i'r ddau barti gwblhau ffurflen drosglwyddo, ac o hynny ymlaen, ystyrir bob y drwydded wedi'i throsglwyddo i berchennog newydd y cerbyd hwnnw.

2. Ni fydd perchennog yn caniatáu i unrhyw un nad oes ganddynt Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol gan y Cyngor, yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni trwyddedig, oni bai am fecanic cymwys, sy'n mynd â'r cerbyd trwyddedig i brawf MOT, danfon cerbyd yn ei ôl, neu'n cyflawni prawf ffordd fel rhan o'i ddyletswyddau arferol.

3. **Wrth i'r drwydded ddod i ben, ei hildio/newid cerbyd, ei diddymu neu'i hatal (Adran 68), neu ar ôl 21 diwrnod (Amser apelio Adran 60), bydd y perchennog yn dychwelyd platiau'r cerbyd i'r Cyngor ar unwaith.**

4. Bydd y perchennog yn sicrhau bod

   (a) trwydded ecseis cerbyd presennol yn cael ei harddangos ar y cerbyd pob amser a bod

   (b) yna bolisi yswiriant cerbyd gweithredol ar y cerbyd pob amser, yn cydymffurfio â deddfwriaeth traffig ffyrdd ac yn meddu ar ardystiad i'w ddefnyddio ar gyfer hurio cyhoeddus yn achos cerbydau hacni ac ar gyfer hurio preifat yn achos cerbyd hurio preifat a bydd y trwyddedai yn cyflwyno'r un peth i swyddog cymeradwy o'r Cyngor neu'r Cwnstabl i'w archwilio ar eu cais yn ogystal â'r dogfennau cofrestru.

   (c) tystysgrif MOT ddilys yn cael ei chyflwyno i'r cerbyd

5. Bydd y perchennog yn sicrhau bod y cerbyd trwyddedig yn cydymffurfio â gofynion manylion technegol y Cyngor drwy gydol oes y drwydded, fel a ganlyn:-

   (a) bydd gan gerbyd trwyddedig bedair olwyn ffordd, a bydd y teiars o'r un maint ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Bydd y cerbyd, sydd wedi ei drwyddedu i gludo dim mwy nag UN teithiwr, gall gael dau ddrws, os wedi ei drwyddedu i gludo DAU NEU FWY o deithwyr bydd rhaid cael o leiaf bedwar drws oni bai am y math o dacsi a geir yn Llundain all gael tri drws.

(b) bydd y cerbyd trwyddedig yn un gyriant llaw dde.(Ac eithrio Limwsinau Hir a all fod yn un gyriant llaw chwith).

(c) bydd cerbyd trwyddedig yn cludo dim mwy nag wyth teithiwr, yn ogystal â'r gyrrwr. Tybir y bydd pob sedd yn darparu lle i un person eistedd, waeth beth fo'u hoedran.

(d) ni fydd bysiau mini sy'n cael eu trwyddedu i gario wyth teithiwr yn cario mwy nag wyth teithiwr, ac ar gyfer y diben hwn, pan osodir seddi ar wahân, bydd pob sedd yn darparu lle i un teithiwr (waeth beth fo'u hoedran) a phan fo seddi wedi'u gosod yn barhaol bydd pob hyd o 40 cm wedi'i fesur mewn llinell syth ar flaen pob sedd yn darparu lle i un teithiwr eistedd.

(e) bydd bysus mini a osodwyd gyda mwy nag wyth sedd i deithwyr, yn tynnu'r seddi ychwanegol a gellid rhoi strwythur tebyg i gawell yng nghefn y cerbyd er mwyn cario bagiau, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.

(f) yn achos cerbydau "estate" neu "hatchback" ble mae'r silff barsel wedi'i thynnu allan, gosodir gril addas i atal bagiau yng nghefn y cerbyd rhag cyffwrdd y bobl sy'n eistedd yn y sedd gefn.

(g) gosodir gwregysau diogelwch yn y cerbydau trwyddedig, sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig a gofynion cyfreithiol presennol, ac yn cael eu gosod yn unol â hynny.

6. Bydd y perchennog yn sicrhau bod y cerbyd trwyddedig, pob amser, yn cario olwyn sbâr o'r un maint a'r olwynion ffordd oni bai bod y ffatri wedi gosod olwyn arbed lle. Bydd yr olwyn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cyfredol (gan roi sylw penodol i ddyfnder y gris). Bydd y perchennog hefyd yn sicrhau bod jac a charntro olwyn yn cael eu cario. Pan fo'r olwyn sbâr yn cael ei thynnu gan asiant LPGA cymeradwy er mwyn hwyluso gosod tanc LPG, bydd angen cario pecyn trwsio ewyn gwasgeddedig. Mewn sefyllfa o'r fath, fodd bynnag, dylid gyrru'r cerbyd ar gyflymder a phellter a nodir gan wneuthurwr y chwistrellwr ewyn, a dylid sicrhau bod teiar a phecyn ewyn newydd yn cael eu prynu'n syth ar ôl eu defnyddio. Os oes pecyn trwsio ewyn gwasgeddedig yn y cerbyd, nid oes angen cario jac nac olwyn sbâr.

7. Bydd y perchennog yn cadw'r cerbyd trwyddedig a'i holl osodiadau yn ddiogel, effeithlon, glân a thaclus ac yn caniatáu i swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu Gwnstabl ei archwilio, ac mewn achos o'r fath, bydd y perchennog yn :-

(a) yn cydymffurfio ag unrhyw rybudd a gyflwynir iddo dan Adran 68 y Ddeddf gan swyddog neu gwnstabl o'r fath, yn atal y drwydded ac yn disgwyl iddo gyflwyno'r cerbyd i gael ei archwilio neu'i brofi ar amser rhesymol ac mewn lleoliad rhesymol er diben penderfynu pa mor ffit ydyw.

(b) yn sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio i gario teithwyr am dâl neu wobr nes y ceir cadarnhad pa un ai yw'n ffit ai peidio.

8. Yn ogystal â Gwiriad Mecanyddol Cyngor Gwynedd, sydd ei angen cyn caniatáu neu adnewyddu trwydded, neu newid cerbyd, bydd y perchennog yn cyflwyno’r cerbyd trwyddedig i gael ei archwilio a’i brofi ar un achlysur yn ystod cyfnod y drwydded, (neu ddwywaith pan fo’r cerbyd wedi cyrraedd deg oed), a bydd y Cyngor yn dewis amser a lleoliad er mwyn cadarnhau pa mor ffit yw'r cerbyd. Pe bai unrhyw gerbyd yn methu'r prawf:-

(a) bydd yn derbyn prawf arall mewn lleoliad a benderfynir gan y Cyngor o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y prawf cyntaf, neu gyfnod hwy yn unol â chytundeb y Cyngor.

(b) ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gario teithwyr am dâl neu wobr nes y ceir cadarnhad yn yr ail brawf pa un ai yw'n ffit ai peidio.

9. Bydd plât y cerbyd yn cael ei osod ar fympar blaen a chefn pob cerbyd trwyddedig (neu ar fraced). O ran cerbydau hurio preifat, bydd sticeri ychwanegol yn cael eu gosod gyda deunydd gludiog **(nid magnetig)** i’r drysau blaen/ôl wedi ei lleoli yn union o dan y ffenestr. Lle bu Trelar yn cael ei thynnu er mwyn cludo bagiau, bu plât ychwanegol yn cael ei gosod ar ei chefn, fel y disgrifiwyd uchod. Bydd y perchennog yn sicrhau bod :-

(a) pob plât ar y cerbydau yn lân, weladwy ac yn eglur pob amser.

(b) achos o golli plât cerbyd yn cael ei adrodd i’r Cyngor yn syth a bydd modd i’r Cyngor ofyn am ffi addas i gael un newydd.

(c) plât y cerbyd a gyflwynir gan y Cyngor ar gyfer y tu mewn i’r cerbyd yn cael ei osod mewn man amlwg yn y cerbyd ac yn weladwy i deithwyr ac yn cael ei gadw'n lân ac yn eglur.

10. Ni fydd perchennog y cerbyd trwydded Hacni yn:

(a) fwriadol neu’n esgeulus yn achosi neu’n dioddef cuddio rhif trwydded o’r fath o olwg y cyhoedd pan fo’r cerbyd ar stop neu’n chwilio am fusnes.
(b) achosi, neu’n caniatáu i gerbyd fod ar stop neu chwilio am fusnes gyda sticer o’r fath sydd wedi’i ddifrodi cymaint nes bod unrhyw ffigwr neu wybodaeth benodol yn annarllenadwy.

11. Bydd gan gerbyd hacni bob amser gloc tacsi a bydd pob mesurydd yn cydymffurfio â’r gofynion a ganlyn:-

(a) bydd goriad, fflag neu ddyfais arall yn cael ei osod ar y cloc tacsi, a bydd troi hwn yn galluogi i'r cloc tacsi weithio a pheri i'r gair "HIRED" ymddangos ar wyneb y cloc tacsi.

(b) bydd modd cloi’r goriad, fflag neu’r ddyfais i'w lle er mwyn i beirianwaith y cloc tacsi roi'r gorau i weithredu, fel nad yw cost y daith yn cael ei gofnodi ar wyneb y cloc tacsi.

(c) pan fo peirianwaith y cloc tacsi yn gweithio, bydd wyneb y cloc yn dangos mewn ffigyrau eglur, cost y daith, fydd ddim yn uwch na'r prisiau y mae'r awdurdod hwn wedi'u pennu ac wedi rhoi gwybod amdanynt i'r cwmni yn ysgrifenedig.

(d) bydd y gair "FARE" yn cael ei brintio ar wyneb y cloc tacsi mewn llythrennau eglur er mwyn dangos yn eglur mai dyma gost y daith.

(e) bydd y cloc tacsi yn cael ei osod mewn lle fel bod yr holl lythrennau a ffigurau arno'n hawdd i'w gweld i unrhyw berson yn y cerbyd trwyddedig, ac felly hefyd, bydd modd goleuo'r llythrennau a'r ffigurau yn briodol pan fo'r cerbyd yn cael ei hurio.

(f) bydd y cloc tacsi ac unrhyw ddarnau ategol yn cael eu gosod yn y cerbyd trwyddedig a byddant yn cael eu selio wrth eu gosod er mwyn sicrhau na fydd modd i unrhyw un chwarae â hwy, heb dorri, difrodi neu dynnu'r sêl oddi yno'n barhaol. Bydd y cloc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob taith. Ni fydd cost y daith yn uwch na'r hyn a ddengys ar y cloc.

(g) mae'n rhaid i'r cloc tacsi gael ei gadw mewn cyflwr gweithio boddhaol ac mae'n rhaid ei gyflwyno i gael ei archwilio mewn lleoliad penodol gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu gan Gwnstabl pe bai rhybudd yn gofyn am hynny dan Adran 68 y Ddeddf neu er mwyn cydymffurfio ag Amod 9 uchod.

12. Bydd gan gerbyd hacni arwydd ar do'r tacsi pob amser ac arno'r gair "TACSI" mewn priflythrennau o leiaf pum centimedr o uchder, ac, oni bai pan fo'r goriad, fflag neu ddyfais arall sydd wedi'u gosod yn y cloc tacsi a geiriau "FOR HIRE" i'w gweld yn glir drwy ffenestr flaen y cerbyd, bydd arwydd "FOR HIRE" goleuedig arall yn cael ei osod yn y cerbyd hacni ac yn hawdd i'w weld drwy ffenestr flaen y tacsi ac wedi'i gysylltu i'r cloc tacsi er mwyn ei ddiffodd wrth gario cwsmer pan fo'r cloc tacsi yn gweithio.

13. Bydd angen i gerbyd HACNI sy'n derbyn ei drwydded gyntaf ar ôl 1af Ionawr2011 fod yn gerbyd du gyda bonet a chefn coch. Bydd hyn yn berthnasol pan newidir cerbydau trwyddedig ar y dyddiad uchod, neu ar ei ôl.

14. Ni fydd gan gerbyd Hurio Preifat unrhyw fath o arwydd ar ei do.

15. Ni fydd unrhyw arwydd, hysbyseb, hysbysiad, dyfais na lifrai (boed wedi'i baentio ar y cerbyd, ei lynu ato neu'i gario i mewn iddo) yn cael ei arddangos ar y cerbyd trwyddedig heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor, gyda thaliad o'r ffi berthnasol, a pe rhoddir caniatâd o'r fath, bydd i'w weld yn ei gyfanrwydd o dan lefel ffenestri'r cerbyd.

16. Bydd y perchennog yn cadw unrhyw offer radio a osodir yn y cerbyd mewn cyflwr da, ond ni fydd yn gosod yr hyn a ganlyn yn y cerbyd :-

(a) unrhyw offer radio ddwyffordd (yn cynnwys Radio CB) heb hysbysu yswirwyr y cerbyd yn gyntaf a derbyn caniatâd ganddynt wedi'i nodi ar dystysgrif yswiriant y cerbyd.

(c) unrhyw offer radio sydd â'r gallu i dderbyn mwy nag un amledd.

17. Bydd y perchennog yn sicrhau bod canlynol yn cael ei gario yn y cerbyd pob amser :-

(a) diffoddydd tân carbon deuocsid/pwdr sych 1.5Kg neu fwy, sy'n rhaid ei roi yn ei le gyda chlipiau mewn lleoliad diogel er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio. Bydd yn cael ei gadw mewn cyflwr da.

(b) pecyn cymorth cyntaf sy'n cydymffurfio â "Industrial Size No. 1 Kit" fel safon ofynnol a bydd yn cael ei gadw'n drefnus i'w ddefnyddio gan y gyrrwr yn unig.

(c) bydd y ddau uchod yn cael eu marcio'n glir â Rhif Trwydded Cerbyd Cyngor Gwynedd y cerbyd sy'n cario'r offer penodol hwnnw.

18. Bydd y perchennog yn sicrhau yr arddangosir tabl o brisiau teithiau'r cerbyd fel Cerbyd Hacni yn amlwg yn y cerbyd pob amser er mwyn i unrhyw un sy'n mynd i mewn i'r cerbyd fedru ei ddarllen yn hawdd.

19. Bydd y perchennog yn rhoi gwybod, i'r Cyngor o fewn 72 awr i:-

(a) unrhyw ddamwain y bu'r cerbyd trwyddedig yn rhan ohoni.

(b) unrhyw newid yng nghyfeiriad y perchennog.

20. Pe bai damwain yn arwain at ddifrod sy'n effeithio'n faterol ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd trwyddedig, bydd angen i'r perchennog gyflwyno'r cerbyd i gael ei archwilio a'i brofi yn unol ag Amod 9 uchod, a ni fydd yn defnyddio'r cerbyd i gario teithwyr am dâl neu wobr hyd nes y gwneir penderfyniad yn dilyn asesiad o ffitrwydd y cerbyd.

21. Rhaid i yrwyr cerbydau Hacni a cherbydau hurio preifat trwyddedig gario ci tywys neu gi cymorth i deithiwr yn rhad ac am ddim, oni bai y profir fod gan y gyrrwr gyflwr meddygol fyddai'n atal hyn. Mae gan yrwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod eu cwmni yn ymwybodol o gyflwr o'r fath wrth gael eu cyflogi.

**AMODAU'N BERTHNASOL I GERBYDAU HURIO PREIFAT AMODOL**

Mae'r amodau hyn, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn benodol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat a lywodraethir gan gontract penodol, sydd â dyddiad dechrau a dyddiad gorffen o ddim llai na saith diwrnod, a ddefnyddir yn benodol ar gyfer y contractau hynny. Bwriad yr amodau hyn yw gwarchod y cyhoedd.

**Maent yn berthnasol yn ogystal ag amodau safonol Cyngor Gwynedd.**

**CYFFREDINOL:**

Nid oes raid i gerbydau Hurio Preifat Amodol fod o liw arbennig, ond mae'n rhaid iddynt gyflawni contract penodol, fel yr uchod, cyn i'r rhan hon fod yn berthnasol.

**AMODAU:**

1. Ni fydd angen darparu platiau blaen/cefn allanol na sticeri ar y drysau ar gyfer Hurio Preifat Amodol, bydd gan y cerbydau blât mewnol a 'Hurio Preifat Amodol' arno a bydd yn cael ei arddangos yn y ffenestr flaen gyda'r geiriau uchod yn weladwy i'r cyhoedd/yr heddlu/swyddog cymeradwy o'r Cyngor.

2. Bydd y cerbyd hefyd yn arddangos rhybudd ysgrifenedig a gyflwynwyd dan Adran 75 (3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, wrth gyflawni contract penodol.

3. Mae'n rhaid i'r gyrrwr hefyd fod yn ddeilydd Trwydded Yrru Awdurdod Lleol.

**********************

**AMODAU'N BERTHNASOL I LIMWSINAU HIR (CERBYDAU ARBENNIG)**

Mae'r amodau hyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn benodol ar gyfer cerbydau sydd wedi'u haddasu wrth ymestyn y pellter rhwng echelydd cerbyd safonol wedi'i adeiladu mewn ffatri. Bwriad yr amodau hyn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd. **Maent yn berthnasol yn ogystal ag amodau safonol yr Awdurdod** ac yn rhoi sylw i'r ffaith y bydd y limwsinau hir:

i) yn teithio ar gyflymder arafach na thacsis arferol ar y cyfan
ii) fel arfer ddim yn goddiweddyd cerbydau eraill
iii) yn hawdd i'r sawl sy'n eu hurio eu hadnabod
iv) yn drymach ac yn sylweddol hwy na cheir safonol
v) yn cael eu haddasu neu'i trosi gan rywun arall yn hytrach na'r gwneuthurwr gwreiddiol

## 1. CYFFREDINOL

1.1 Mae’r amodau hyn yn berthnasol i limwsinau hir a ddiffinnir ym mharagraffau 1.2 a 1.3 isod, ble mae’r cerbyd wedi’i adeiladu neu’i addasu i greu lle i hyd at wyth teithiwr, yn unig.

1.2 Mae limwsîn hir yn gerbyd o’r math salŵn ble mae ei hyd wedi'i gynyddu wrth ymestyn y pellter rhwng yr echelydd wedi iddo gael ei gynhyrchu. Dim ond cerbydau sydd wedi’u hymestyn i uchafswm o 120 modfedd y bydd Cyngor Gwynedd yn eu trwyddedu.

1.3 Mae limwsîn hir Americanaidd yn limwsîn hir wedi’i fewnforio o UDA ac fel arfer byddant wedi’u cynhyrchu’n wreiddiol gan Lincoln (Ford) neu Cadillac.

1.4 Er mwyn cyfrifo sawl teithiwr all y cerbyd ei gario, lleiafswm lled sedd teithiwr yw 400mm. O ran sedd siâp ‘L’, mae’n rhaid cael digon o le yn y gornel i atal y teithiwr ar un ochr i’r gornel rhag gorgyffwrdd â’r teithiwr ar yr ochr arall.

## 2. AMODAU

2.1 O ran limwsîn hir, neu limwsîn hir Americanaidd, bydd y Cyngor angen copïau gwreiddiol y dogfennau a ganlyn cyn medru ystyried y cais yn llawn:

(a) Dogfennaeth mewnforio gyflawn pan yn briodol, a thystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Sengl (SVA). (Noder nad yw Tystysgrif Cymeradwyaeth Gweinidog yn dderbyniol).
(b) Dogfen Gofrestru’r DVLA (V5).
(c) Tystysgrif Yswiriant ddilys, yn cynnwys hurio a thâl.
(d) Tystysgrif MOT gyfredol wedi’i chyflwyno gan Orsaf Profi gymeradwy.
(e) Os yn briodol, tystysgrif gosod gan gwmni trosi cerbydau yn y DU wedi’i chymeradwyo gan gymdeithas nwy petroliwm hylifol (LPGA), ar gyfer cerbydau sydd wedi'u trosi i redeg ar LPG.
(f) Disg Trwydded Treth Cerbyd ddilys.

2.2 Bydd y Cerbyd yn cydymffurfio â'r hyn a ganlyn:

(a) O leiaf pedair olwyn ffordd ac olwyn sbâr maint llawn.
(b) Teiars wedi’u dylunio a’u cynhyrchu i gefnogi’r pwysau mwyaf a ganiateir ar yr echelydd pan fo’r cerbyd yn teithio ar y cyflymder uchaf. Yr ymgeisydd i gyflwyno tystiolaeth o addasrwydd y teiars, pe bai gofyn.
(c) Gwregysau diogelwch wedi’u gosod yn unol â’r Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) cyfredol.
(d) Ni chaiff uchafswm hyd y cerbyd ar ôl iddo gael ei drosi (wedi'i fesur rhwng ochr cefn y drws blaen ac ochr blaen y drws cefn) fod yn fwy na 120 modfedd.

2.3 Pan fo alcohol yn cael ei ddarparu yn y cerbyd, bydd y perchennog yn cyflwyno copi o'i drwydded alcohol i'r Awdurdod Lleol. Ni fydd caniatâd i unrhyw un, iau nag 18 mlwydd oed, sy'n teithio mewn limwsîn hir, yfed alcohol.

2.4 Bydd ffenestri tywyll yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnyddio).

2.5 Ni fydd plant iau na 16 mlwydd oed yn cael teithio mewn limwsîn hir heb o leiaf riant neu warchodwr un o'r plant.

2.6 Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod teithwyr yn defnyddio'r gwregysau diogelwch a ddarperir pan fo'r cerbyd yn symud.

2.7 Caniateir i Limwsîn Hir:

(a) fod yn yriant llaw chwith.
(b) gael rhai seddi'n wynebu'r ochr.
(c) gael ffenestri tywyll.
(d) gael ei eithrio o arddangos Sticeri Cyngor Gwynedd ar y Drysau.
(e) rhaid cael gwregys diogelwch ar sedd pob teithiwr.

2.8 Gwaherddir y gweithgarwch a ganlyn:

(a) Stripio
(b) Dawnsio Glin
(b) Dawnsio Polyn
(d) Unrhyw weithgarwch neu berfformiad o'r math hwn.

2.9 Yn ogystal â phrawf MOT blynyddol, bydd angen i Limwsîn Hir gael Gwiriad Mecanyddol gan Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:-

(a) hyd at bum mlwydd oed – dwywaith y flwyddyn
(b) dros bum mlynedd a hyd at ddeuddeg mlynedd – tair gwaith y flwyddyn.

# AMODAU AR GYFER INJAN DÂN
# (CERBYDAU ARBENIGOL)

---

Trwyddedir y cerbyd yn unol â'r Telerau ac Amodau Safonol ar gyfer Cerbydau Hacni/Hurio Preifat. Mae'r Amodau ychwanegol a ganlyn hefyd yn berthnasol i'r math hwn o gerbyd:

1. Bydd y cerbyd yn cael ei archwilio ac yn derbyn tystysgrif ffitrwydd (MOT neu'r hyn sy'n cyfateb ar gyfer HGV) cyn cyflwyno'r drwydded yn y lle cyntaf, ac yna bydd angen prawf pellach yn ystod y flwyddyn pan fo'r dystysgrif yn ddilys, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod.

2. Bydd gan y gyrrwr drwydded yrru lawn yn addas ar gyfer y math hwn o gerbyd.

3. Pan fo teithwyr yn mynd i mewn i gerbyd, neu'n gadael cerbyd, bydd perchennog y cwmni neu'r criw yn rhoi cymorth corfforol i sicrhau eu diogelwch.

4. Bydd stepiau ychwanegol yn cael eu cario a'u defnyddio ar y cerbyd i hwyluso mynediad i adran teithwyr y cerbyd, ac ohono.

5. Bydd gofyn i bob teithiwr fynd i mewn i'r cerbyd ac allan ohono trwy'r drws sydd gyferbyn â'r palmant.
6. Bydd teithwyr yn cael eu cynghori wrth archebu'r cerbyd, a hefyd ar ddiwrnod y daith, na ddylent fynd i mewn i'r cerbyd, na mynd allan ohono heb gymorth y gyrrwr/criw.

7. Pan fo'r trefniadau eistedd wedi cael eu newid, dylai'r seddi hynny fod wedi'u glynu'n dynn ac yn ddiogel i lawr y cerbyd.

8. Bydd gwregysau diogelwch ar gael i bob teithiwr, sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig cyfredol.

9. Bydd arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn adran y teithwyr yn dweud y dylai pob teithiwr wisgo gwregys diogelwch.

10. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod plant sy'n iau na 14 mlwydd oed yn gwisgo'r gwregysau diogelwch a ddarperir pan fo'r cerbyd yn symud.

11. Bydd pob clo allanol ar y cerbyd yn cael ei osod yn ddiogel er mwyn atal teithwyr neu aelodau o'r cyhoedd rhag cael mynediad.

12. Rhaid cadw llawr y cerbyd yn glir pob amser a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau arno.

13. Rhaid cael gwared â phob golau glas, seiren, golau fflachio, tâp adlewyrchol, ysgolion ac unrhyw lythrennau a fyddai’n rhoi’r argraff i’r cyhoedd bod y cerbyd yn injan dân, yn barhaol.

14. Ni chaiff unrhyw berson sy’n ymwneud â gweithredu’r cerbyd wisgo lifrau neu helmed all arwain aelod o’r cyhoedd i gredu bod y person yn aelod o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

15. Bydd system larwm clywadwy yn cael ei gosod yng nghefn drysau adran y teithwyr, a bydd yn gweithio pob amser y bydd y cerbyd yn cario teithwyr.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEDI 2014** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

1. Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 23 o Fehefin 2014 gydag argymhelliad i gymeradwyo cynnig Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd trwyddedu tacsis o 19.78%, er mwyn adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yn llawn yn 2014/15 (Gweler adroddiad Pwyllgor yr 23 o Fehefin yn llawn yn atodiad 1, ynghyd a thabl o'r ffioedd arfaethedig)

2. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd.

3. Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol sydd ynghlwm â phrosesu ceisiadau am drwyddedau gyrwyr, a cherbydau hacni a hurio preifat, a thrwyddedau gweithredwyr .

4. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol ac ni ellir cynnal y diffyg hwn ymhellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

5. Mae cynnal cydbwysedd o wariant yn erbyn incwm yn her a wynebir gan bob math o fusnesau, gan gynnwys y Cyngor. Mae'r Cyngor ers blynyddoedd wedi bod yn rhoi cymhorthdal yn erbyn gwir gost trwyddedu tacsis allan o ffrydiau refeniw cyffredinol . Gyda'r toriadau a wynebir gan y Cyngor ar hyn o bryd, ni all y sefyllfa barhau heb fod adnoddau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau eraill i drigolion yn cael ei leihau. Nid yw sybsideiddio costau trwyddedu yn sicrhau unrhyw fudd mewn ffurf gostyngiad prisiau i breswylwyr Gwynedd, gan nad oes rhaid i'r diwydiant gyflwyno unrhyw arbedion i'w cwsmeriaid.

6. Rhaid i argymhelliad i gynyddu'r ffioedd fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant yn ogystal ag ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

## BARN PENNAETH YR ADRAN CYLLID

7. Mae Pennaeth yr Adran Cyllid yn cefnogi cynyddu'r ffioedd er mwyn adennill costau yn llawn, oherwydd nad yw bellach yn bosib cynnal y diffyg cyllidebol blynyddol sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth.

## PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR AR Y 23 O FEHEFIN 2014

8. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn argymhelliad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd trwyddedu tacsis 19.78% y flwyddyn hon, er mwyn adennill costau yn llawn yn amodol ar ymgynghoriad statudol ac asesu costau darparu'r gwasanaeth yn flynyddol.

## YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

9. Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol.

10. Rhoddwyd y rhybudd yn y wasg leol ar yr 16 o Orffennaf 2014, yn unol â'r gofynion statudol yn ogystal ag ar wefan y Cyngor. Roedd yr ymgynghoriad yn agored am 28 diwrnod.(gweler atodiad 2 rhybudd cyhoeddus)

11. Yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol , fe ysgrifennwyd at bob perchennog cerbyd tacsi yng Ngwynedd yn egluro yn llawn y rheswm dros yr angen i gynyddu'r ffioedd. Fe atgoffwyd y diwydiant yn y llythyr hwn fod cyfle i roi sylwadau ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghorol. (gweler atodiad 3 )

12. Fe ddaeth yr ymgynghoriad i ben ar y 13 o Awst, ac fe dderbyniwyd 1 llythyr oddi wrth unigolyn yn y diwydiant tacsis yn gwrthwynebu'r cynnydd yng nghostau trwyddedau tacsis.(Atodiad 4)

13. Ni fydd unrhyw gynnydd yn y ffioedd yn dod i rym hyd nes y bydd y gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn ac y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynglŷn â lefel y ffioedd.

**<u>SAIL GWRTHWYNEBIAD A DDERBYNIWYD</u>**

14. Gwrthwynebir y cynnydd yn y ffioedd yng nghyd-destun y cynnydd sylweddol sydd wedi bod eisoes dros y blynyddoedd diwethaf yng nghostau ffioedd trwyddedu tacsis.

15. Datganir pryder fod y costau ychwanegol yn golygu na fydd yn bosib cyflogi mwy o yrwyr; ac y bydd yn anodd parhau i gyflogi hyd yn oed y gyrwyr cyfredol.

16. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y gwrthwynebiad a dderbyniwyd; yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes i'r Pwyllgor parthed yr angen i adennill costau'r gwasanaeth.

**<u>DILEU FFI TROSGLWYDDO TRWYDDED O GERBYD I GERBYD ARALL</u>**

17. Fe dderbyniwyd cyngor cyfreithiol yn ddiweddar i ddileu'r broses o drosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall gan nad oes darpariaeth i wneud hynny yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Fe hysbysebwyd y diwydiant am y newid hwn yn y llythyr a yrrwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ffioedd.

18. Yn dilyn y cyngor cyfreithiol a gafwyd, noder fod y ffi sydd ynghlwm a'r broses hon wedi ei ddileu o'r tabl ffioedd trwyddedu tacsis sydd wedi ei atodi i'r adroddiad.(atodiad 1)

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

**Codi holl ffioedd trwyddedu tacsis o 19.78% yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn ac a ymgynghorwyd arno er mwyn adennill y costau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yn llawn.**

**Atodiad 1**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **23 MEHEFIN 2014** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**<u>CEFNDIR</u>**

1. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffioedd yng nghyswllt trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn rheolaidd.

2. Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu codi ffioedd ar lefel sy'n ddigonol i adennill costau rhesymol -

   - I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
   - I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr – costau archwilio, arhosfan cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

3. Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio. Yn hanesyddol, mae ffioedd wedi'u gosod ar lefel isel yng Ngwynedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

4. Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o drwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth, ac yn y pendraw, ar drethdalwyr y Cyngor. Mae dadansoddiad cost manwl o incwm yn erbyn gwariant ar y swyddogaeth hon yn 2013 wedi datgelu diffyg cyllidebol sylweddol ac fe benderfynwyd fod rhaid codi'r ffioedd gan o leiaf 37% er mwyn adennill y costau'n llawn.

5. Mewn adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 24 o Fehefin 2013; fe argymhellwyd cynnydd o 25% ar holl ffioedd tacsis; gyda chynnydd pellach er pwrpas symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15. Fe nodwyd hefyd yn yr adroddiad y byddai'r costau yn y dyfodol o gynnal y gwasanaeth yn cael eu hasesu yn flynyddol.

6. Fe gymeradwywyd y cynnydd arfaethedig gan y Pwyllgor, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad statudol ar y 24 o Fehefin 2013; ac yn ddiweddarach fe gadarnhawyd y penderfyniad ar y 16 o Fedi 2013.

7. Mae asesiad o'r costau o gynnal y rhannau hynny o'r swyddogaeth trwyddedu tacsis mewn perthynas â'r hyn y caniateir y Cyngor i adennill costau rhesymol yn 2013/14 yn dynodi'r canlynol :

| | |
|---|---|
| Gwariant crynswth | £126,705 |
| Incwm o ffioedd, ayyb | £106,122 |
| Gwariant net | £20,593 |

8. Yn seiliedig ar y ffigyrau diweddaraf sydd ar gael, fe fydd yn rhaid cynyddu ffioedd 19.78% er mwyn adennill y costau'n llawn.

## CYNNIG

**9. Cynigir cynyddu holl ffioedd tacsis 19.78% er mwyn adennill costau'n llawn yn 2014/15. Fe fydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol.**

10. Amgaeir rhestr lawn y ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig gyda'r adroddiad hwn.

## YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT

11. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y bwriad i godi'r ffioedd er mwyn symud tuag at adennill costau gyda'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd John Wyn Williams. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol ar y ffioedd arfaethedig hefyd gyda Phennaeth yr Adran Gyllid. Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

12. Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol. Rhoddir y rhybudd yn y wasg leol ar 16 Gorffennaf 2014, neu cyn hynny, a chynhelir ymgynghoriad uniongyrchol â'r diwydiant tacsis cyn y dyddiad hwn a fydd yn rhoi digon o gyfle i roi sylw i unrhyw bryderon. Rhaid i'r rhybudd hwn gynnwys dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 15 Medi 2014 a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn.

## YSTYRIED Y RISGIAU

13. Ceir risgiau posib o ran ffyniant y diwydiant tacsis a hurio preifat mewn perthynas â chodi ffioedd ; fodd bynnag, mae risgiau hefyd i wasanaethau eraill y Cyngor yn gysylltiedig â pheidio ag adennill costau.

14. Yn y cyd-destun economaidd cyfredol, cydnabyddir y bydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn cael ei weld fel baich ychwanegol ar y diwydiant tacsis. Mae'r cynnydd yn gyfystyr a chost ychwanegol o £20.27 ar gyfer trwydded gyrrwr; a £22.75 ar gyfer trwydded cerbyd. Mae hyn yn gynnydd llai na phunt yr wythnos ar gyfer gyrrwr/perchennog gydag un cerbyd. Os fydd yn bosib adennill y costau'n llawn y flwyddyn hon; mewn blynyddoedd i ddod fe fydd newidiadau yn y ffioedd yn adlewyrchu newidiadau yng nghostau darparu'r gwasanaeth yn unig.

15. Ar ôl ystyried yr oll o’r ffactorau perthnasol, fe ystyrir adennill costau i fod y ffordd fwyaf cyfiawn o Bwyso a mesur buddiannau'r diwydiant tacsi a hurio preifat yn erbyn buddiannau dinasyddion a threthdalwyr Gwynedd.

**ARGYMHELLIAD**

16. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo cynnig Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi holl ffioedd tacsis gan 19.78%.

Bydd y cynnydd arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn amodol ar ymgynghoriad statudol a bydd costau darparu’r gwasanaeth yn cael eu hasesu’n flynyddol.

| FFIOEDD ARFAETHEDIG – TRWYDDEDAU TACSIS | | FFIOEDD 2013/14 | | | FFIOEDD ARFAETHEDIG 2014/15 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charg e including VAT where applicable | Cynnydd/ Increase |
| **Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney and Private Hire** | | | | | | | |
| Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence | £102.50 | £0.00 | £102.50 | £122.77 | £0.00 | £122.77 | 19.78% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat | Private Hire Operators Licence | £136.25 | £0.00 | £136.25 | £163.20 | £0.00 | £163.20 | 19.78% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Operators Licence - School Transport | £67.50 | £0.00 | £67.50 | £80.85 | £0.00 | £80.85 | 19.78% |
| Trwydded Hacni Ceffyl a Char | Horse Drawn Hackney Carriage Licence | £115.00 | £0.00 | £115.00 | £137.75 | £0.00 | £137.75 | 19.78% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat | Private Hire Vehicle Licence | £115.00 | £0.00 | £115.00 | £137.75 | £0.00 | £137.75 | 19.78% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Vehicle Licence - School Transport | £67.50 | £0.00 | £67.50 | £80.85 | £0.00 | £80.85 | 19.78% |
| Adnewyddu Bathodyn Adnabod Gyrrwr | Replacement Drivers ID Badge | £11.25 | £0.00 | £11.25 | £13.48 | £0.00 | £13.48 | 19.78% |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £26.25 | £0.00 | £26.25 | £31.44 | £0.00 | £31.44 | 19.78% |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Place Bracket (Pair) | £26.25 | £0.00 | £26.25 | £31.44 | £0.00 | £31.44 | 19.78% |
| Trosglwyddo Trwydded i Perchennog newydd - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to new Proprietor - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £56.25 | £0.00 | £56.25 | £67.38 | £0.00 | £67.38 | 19.78% |
| Plat Cerbyd (Yr un) | Vehicle Plate (Each) | £13.75 | £0.00 | £13.75 | £16.47 | £0.00 | £16.47 | 19.78% |
| Plat Mewnol | Internal Plate | £12.50 | £0.00 | £12.50 | £14.97 | £0.00 | £14.97 | 19.78% |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £3.75 | £0.00 | £3.75 | £4.49 | £0.00 | £4.49 | 19.78% |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire Door Sticker (Each) | £13.75 | £0.00 | £13.75 | £16.47 | £0.00 | £16.47 | 19.78% |
| Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Disclosure and Barring Service Check | | | | | | | |
| Ffi Statudol | Statutory Fee | £44.00 | £0.00 | £44.00 | £44.00 | £0.00 | £44.00 | 0.00% |
| Ffi Weinyddol | Admin Fee | £6.00 | £0.00 | £6.00 | £7.19 | £0.00 | £7.19 | 19.78% |

Atodiad/ appendix 2

## CYNGOR GWYNEDD

### DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 FFIOEDD DIWYGIEDIG AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT A THRWYDDEDAU GWEITHREDWYR 2014/15

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag adran 70(2), Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu bod y ffioedd i ganiatáu ac adnewyddu trwyddedau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

(a) **Trwydded Gyrrwr (Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat) £122.77 y flwyddyn**
(b) **Trwydded Cerbyd (Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat) £137.75 y flwyddyn**
(c) **Trosglwyddo trwydded ( i berchennog arall) £67.38**
(d) **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat £163.20**

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi penderfynu amrywio ffioedd a threfniadau gweinyddu eraill yn ymwneud â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat nad yw'n ofynnol iddynt fod yn destun hysbysiad cyhoeddus.

Yn unol â gofynion adran 70(3) (b) y Ddeddf a enwir uchod, gellir archwilio copïau o'r hysbysiad am ddim am gyfnod o 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn yn -

Siop Gwynedd**,** Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH
Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

Bydd yr hysbysiad hefyd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd (tudalen Ymgynghori) am 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn. **www.gwynedd.gov.uk**

Gellir cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r amrywiadau a nodir uchod yn ysgrifenedig a'i anfon o fewn y 28 niwrnod a nodwyd at **Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL53 1BN**.

Daw'r amrywiadau uchod i rym 28 niwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn. Pe derbynnir gwrthwynebiadau mewn ymateb i'r hysbysiad hwn, yna ar ddyddiad ddim hwyrach na 2 fis wedi i'r cyfnod 28 niwrnod ddiweddu, bydd yr amrywiadau'n dod i rym, gan gynnwys diwygiadau neu hebddynt, ar ôl ystyried y gwrthwynebiad.

Dyddiedig: 16/07/2014
Aled Davies, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

## GWYNEDD COUNCIL

### LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976 REVISED LICENCE FEES FOR PRIVATE HIRE VEHICLES AND HACKNEY CARRIAGE VEHICLES AND OPERATORS 2014/15

Notice is hereby given in accordance with section 70(2) of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 that Gwynedd Council has determined that the fees in respect of the grant and renewal of private hire and hackney carriage licences be varied as follows:

(a) **Drivers Licence ( Hackney and Private Hire) £122.77 per year**
(b) **Vehicle Licence ( Hackney and Private Hire) £137.75 per year**
(c) **Transfer of licence (to another proprietor) £67.38**
(d) **Private Hire Operators Licence £163.20**

The Council has also determined variations in other fees and administration arrangements in connection with taxi and private hire licensing which are not required to be the subject of a public notice.

As required by section 70(3)(b) of the said Act, copies of this notice may be inspected free of charge for a period of 28 days from the publication of this notice at -

Siop Gwynedd, Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH
Siop Gwynedd, Council Offices, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
Siop Gwynedd, Council Offices, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

A copy of this notice will also be available on the Gwynedd Council website (Consultation page) for 28 days from the publication of this notice. **www.gwynedd.gov.uk.**

Any objections to the variations specified above may be made in writing and sent within the said 28 days to the **Public Protection Service, Arfon Area Office, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN**.

The above variations will come in to effect 28 days from the date of this notice. If any objections are received in response to this notice, then on a date not later than 2 months from the expiration of the 28 days period, the variations shall come in to force with or without modifications after consideration of the objection.

Dated: 16/07/2014
Aled Davies, Head of Regulatory Services
Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Gofynnwch am/Ask for: Gwenan M Williams
☎(01766) 771000
🖹 (01758) 613265
🖃 Trwyddedu@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: 093014/GMW
Eich Cyf / Your Ref:

10/07/2014

Annwyl Syr/Madam

**FFIOEDD TRWYDDEDAU 2014/15**
**a**
**NEWIDIADAU I'R DREFN TROSGLWYDDO TRWYDDED CERBYD**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 23 Mehefin 2014, parthed ffioedd trwyddedau tacsis, ac i egluro paham fod y penderfyniad anodd wedi ei gymryd i gynyddu ffioedd eto eleni.

Fe fyddwch yn ymwybodol fod, pan gymeradwyodd y Pwyllgor Trwyddedu yn 2013 i gynyddu ffioedd trwyddedau tacsis, penderfynwyd hefyd i adennill costau a ganiateir sy'n gysylltiedig â thrwyddedu tacsis yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi gwneud adolygiad pellach o'r costau sydd ynghlwm a thrwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat a chanfuwyd nad oedd y ffioedd a godir am y trwyddedau yn adlewyrchu costau llawn o brosesu'r trwyddedau hyn gan y Cyngor.

Mae'r costau nad ydynt yn cael eu hadennill o ffioedd trwyddedau yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Cyngor, ac yn y pendraw, ar y talwr Treth y Cyngor. Nid yw yn bosib i'r Cyngor barhau i ysgwyddo baich y diffyg cyllidebol blynyddol o dan yr amgylchiadau economaidd presennol.

Penderfynodd y Pwyllgor i godi'r ffioedd sydd ynghlwm a thrwyddedu tacsis o 19.78% y flwyddyn hon; yn ddarostyngedig i ymgynghoriad llawn gyda'r diwydiant tacsi yng Ngwynedd, a'r cyhoedd.

Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y ffioedd ar gyfer trwydded gyrrwr yn cynyddu o £20.27 ac o £22.75 ar gyfer trwydded cerbyd. Gweler manylion llawn y cynnydd mewn ffioedd ynghlwm a'r llythyr hwn.

Yn hanesyddol, roedd ffioedd trwyddedau tacsis wedi cael eu cadw ar lefelau cymharol isel o'i gymharu â Chynghorau eraill ers sawl blwyddyn

Dear Sir/Madam

**LICENCE FEES 2014/15**
**and**
**CHANGES TO VEHICLE LICENCE TRANSFER ARRANGEMENTS**

I write to inform you of the decision of the General Licensing Committee on the 23 June 2014, in respect of taxi licence fees, and to explain why this difficult decision had to be taken to increase the fees again this year.

You will be aware that, when in 2013 the Licensing Committee approved an increase in taxi licensing fees, a decision was also taken to recover the allowable costs associated with taxi licensing in the future.

The Council has undertaken a further review of the costs associated with the licensing of hackney and private hire vehicles and it was found that the fees charged for the licences do not reflect the full costs of processing these licences by the Council.

Costs which are not recovered by the licence fees are a burden on the resources of the Council, and ultimately, on the Council Tax payer. It is not possible for the Council to continue shouldering the burden of this annual budgetary deficit in the current economic climate.

The Committee decided to increase the fees associated with taxi licensing by 19.78% this year; subject to a full consultation with the taxi industry in Gwynedd and the public.

In practice, this means the fees for a driver's licence will increase by £20.27 and £22.75 for a vehicle licence. The full details of the increased fees are attached to this letter.

Taxi licence fees have historically been maintained at a relatively low level in

bellach. Hyd yn oed gyda'r cynnydd sydd wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, mae ffioedd trwyddedau tacsis Gwynedd yn parhau i fod yn weddol isel o'i gymharu â siroedd eraill yng Nghymru (gweler y tabl a atodir i'r llythyr hwn).

Yn unol ag adran 70 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n ofynnol fod y Cyngor yn hysbysebu unrhyw newidiadau yn y ffioedd trwyddedau tacsis yn y wasg leol. Hoffwn eich hysbysu y bydd y ffioedd newydd yn cael eu hysbysebu mewn Rhybudd Cyhoeddus yn y papurau lleol ar yr 16 o Orffennaf 2014.

Fe fydd cyfle i chwi fel aelod o'r fasnach, ac i'r Cyhoedd, yn ystod cyfnod o 28 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbyseb, i roi eich barn yn ysgrifenedig i'r adran hon ar y ffioedd newydd.

Os derbynnir gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r ffioedd newydd, oddi fewn i gyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad y Rhybudd Cyhoeddus, fe fydd yn rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol yn y cyfarfod nesaf ar 15 Medi 2014.

**NEWIDIADAU I'R TREFN TROSGLWYDDO TRWYDDED CERBYD**

Yn ddiweddar fe dynnwyd sylw yr adran at y ffaith nad oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth sydd yn caniatáu trosglwyddo unai Trwydded Cerbyd Hacni na Thrwydded Cerbyd Hurio Preifat i gerbyd arall. Ni fydd y trosglwyddiadau hyn bellach ar gael; ac fe ddylid anwybyddu'r ffi a ddangosir ar y tabl amgaeedig mewn perthynas â 'Trosglwyddo Trwydded i gerbyd arall - Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat' .

Bydd yn dal yn bosibl i drosglwyddo trwydded cerbyd i berchennog arall.

Os oes genych unrhyw ymholiad parthed y materion uchod, cysylltwch â'r adran hon.

comparison to other Councils for some years. Even with the increases approved by the Committee, Gwynedd taxi licence fees remain relatively low in comparison to other counties in Wales (see table attached to this letter).

In accordance with section 70 of The Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, the Council is required to advertise any changes to taxi licence fees in the local press. I wish to inform you that the new fees will be in advertised in a Public Notice in the local press on the 16 July 2014.

There will be an opportunity for you, as a member of the trade, and the public in the 28 days following this notice to give your opinion on the new fees, in writing to this department.

If written objections to the new fees are received within a period of 28 days following the date of publication of the notice, the objections will have to be considered by the General Licensing Committee at its next meeting on 15 September 2014.

**CHANGES TO VEHICLE LICENCE TRANSFER ARRANGEMENTS**

It has recently been brought to the attention of the Department that there is no provision in the legislation which permits the transfer of either a Hackney Carriage Licence or a Private Hire Vehicle Licence to another vehicle. These transfers will therefore no longer be available and the fee which is shown in the enclosed table in respect of 'Transfer of Licence to replacement vehicle - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle' should be disregarded.

It will still be possible to transfer a vehicle licence to another proprietor.

If you have any enquiry regarding the above matters, please contact this department.

Yn gywir/Yours faithfully

**Gwenan Mai Williams**
**Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** (Iechyd & Diogelwch a Thrwyddedu)
**Public Protection Manager** (Health & Safety and Licensing)

| FFIOEDD ARFAETHEDIG – TRWYDDEDAU TACSIS<br>PROPOSED FEES – TAXI LICENSING | | FFIOEDD 2013/14<br>2013/14 FEES | | | FFIOEDD ARFAETHEDIG 2014/15<br>2014/15 PROPOSED FEES | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Ffi/Pris Eithrio TAW / Fee/Charge excluding VAT | TAW / VAT @ 20% | Ffi/Pris yn cynnwys TAW lle'n berthnasol / Fee/Charge including VAT where applicable | Cynnydd/ Increase |
| **Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney and Private Hire** | | | | | | | |
| Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence | £102.50 | £0.00 | £102.50 | £122.77 | £0.00 | £122.77 | 19.78% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat | Private Hire Operators Licence | £136.25 | £0.00 | £136.25 | £163.20 | £0.00 | £163.20 | 19.78% |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Operators Licence - School Transport | £67.50 | £0.00 | £67.50 | £80.85 | £0.00 | £80.85 | 19.78% |
| Trwydded Hacni Ceffyl a Char | Horse Drawn Hackney Carriage Licence | £115.00 | £0.00 | £115.00 | £137.75 | £0.00 | £137.75 | 19.78% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat | Private Hire Vehicle Licence | £115.00 | £0.00 | £115.00 | £137.75 | £0.00 | £137.75 | 19.78% |
| Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion | Private Hire Vehicle Licence - School Transport | £67.50 | £0.00 | £67.50 | £80.85 | £0.00 | £80.85 | 19.78% |
| Adnewyddu Bathodyn Adnabod Gyrrwr | Replacement Drivers ID Badge | £11.25 | £0.00 | £11.25 | £13.48 | £0.00 | £13.48 | 19.78% |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £26.25 | £0.00 | £26.25 | £31.44 | £0.00 | £31.44 | 19.78% |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Place Bracket (Pair) | £26.25 | £0.00 | £26.25 | £31.44 | £0.00 | £31.44 | 19.78% |
| Trosglwyddo Trwydded i gerbyd arall - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to replacement vehicle - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £56.25 | £0.00 | £56.25 | £67.38 | £0.00 | £67.38 | 19.78% |
| Trosglwyddo Trwydded i Perchennog newydd - Cerbyd Hacni neu Cerbyd Hurio Preifat | Transfer of Licence to new Proprietor - Hackney Carriage or Private Hire Vehicle | £56.25 | £0.00 | £56.25 | £67.38 | £0.00 | £67.38 | 19.78% |
| Plat Cerbyd (Yr un) | Vehicle Plate (Each) | £13.75 | £0.00 | £13.75 | £16.47 | £0.00 | £16.47 | 19.78% |
| Plat Mewnol | Internal Plate | £12.50 | £0.00 | £12.50 | £14.97 | £0.00 | £14.97 | 19.78% |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £3.75 | £0.00 | £3.75 | £4.49 | £0.00 | £4.49 | 19.78% |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire Door Sticker (Each) | £13.75 | £0.00 | £13.75 | £16.47 | £0.00 | £16.47 | 19.78% |
| Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Disclosure and Barring Service Check | | | | | | | |
| Ffi Statudol | Statutory Fee | £44.00 | £0.00 | £44.00 | £44.00 | £0.00 | £44.00 | 0.00% |
| Ffi Weinyddol | Admin Fee | £6.00 | £0.00 | £6.00 | £7.19 | £0.00 | £7.19 | 19.78% |

## FFIOEDD TRWYDDEDAU TACSI/TAXI LICENSING FEES 2014/15

| CYNGOR/ COUNCIL | GYRRWR/ DRIVER | CERBYD HACNI/ HC VEHICLE | CERBYD HURIO PREIFAT/ PH VEHICLE | GWEITHREDWR HURIO PREIFAT/ PRIVATE HIRE OPERATOR |
|---|---|---|---|---|
| **ANGLESEY** | £110.00 Newydd/New<br>£67.00 Adnewyddu/Renewal | £138.00 Newydd/New<br>£129.00 Adnewyddu/Renewal | £138.00 Newydd/New<br>£129.00 Adnewyddu/Renewal | £129.00 |
| **CONWY** | £145.00 Newydd/New<br>£80.00 Adnewyddu/Renewal | £220.00 Newydd/New<br>£200.00 Adnewyddu/Renewal | £220.00 Newydd/New<br>£200.00 Adnewyddu/Renewal | £130.00 Newydd/New<br>£115.00 Adnewyddu/Renewal |
| **DENBIGH** | £140.00 | £200.00 | £200.00 | £200.00 |
| **FLINTSHIRE** | £64.00 Newydd/New<br>£56.00 Adnewyddu/Renewal | £320.00 - £346.00 | £320.00 - £346.00 | £136.00 - £248.00 |
| **WREXHAM** | £99.00 | £190.00 Newydd/New<br>£174.50 Adnewyddu/Renewal | £243.00 Newydd/New<br>£199.00 Adnewyddu/Renewal | £133.00 - £296.00 |
| **CEREDIGION** | £132.00 Newydd/New<br>£95.00 Adnewyddu/Renewal | £174.00 | £132.00 | £186.00 |
| **POWYS** | £123.70 Newydd/New<br>£104.00 Adnewyddu/Renewal | £138.75 | £128.75 | £94.80 |
| **NEWPORT** | £100.00 | £129.00 - £310.00 | £129.00 - £310.00 | £300.00 - £450 |
| **SWANSEA** | £79.00 Newydd/New<br>£69.00 Adnewyddu/Renewal | £320.00 | £310.00 | £500.00 |
| **CARDIFF** | £249.00 Newydd/New<br>£43.00 Adnewyddu/Renewal | £163.00 | £140.00 Newydd/New<br>£102.00 Adnewyddu/Renewal | £143.00 |

## FFIOEDD ARFAETHEDIG/PROPOSED FEES

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD** | £122.77 | £137.75 | £137.75 | £163.20 |

15 Y Grugan
Y Groeslon
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7TA
15/07/2014

John C Reynolds
Regulatory Department
Swyddfa Ardal Dwyfor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

Dear Mr Reynolds

With reference to your recent circular in relation to reviewing Licence fees for drivers and operators. I would like to object to the level of those price rises yet again this year.

Gwynedd Taxi Driving Licence and operator fees have increased by a staggering amount since 2012

| | |
|---|---|
| 2011 | £59 |
| 2012 + 35% | £80 |
| 2013 + 28% | £102.50 |
| 2014 + 20% | £122.77 (proposed) |

**A percentage rise in three years of 108%**

You claim in your circular that Gwynedd Council have undertaken a further review of the costs associated with the licensing of hackney and private hire vehicles. Under the Freedom of Information Act I would request that I receive a copy of that review. It is my intention to refer these proposed rises to the Local Government Ombudsman.

As a fee paying taxi operator I am not getting value for money from the Council, an annual letter informing me that charges are increasing is my only correspondence from your department. It would be far more beneficial for my business to know why **some operators** have been issued with Arfon Hackney Plates???

Why has no circular been sent about something so important, and which is totally contrary to the Council's latest guidelines and devalues all our businesses by thousands of pounds?

A policy of re-issuing hackney plates will greatly reduce the provision for disabled persons in Arfon, why would I spend a premium in getting a purpose

built vehicle (12 months ago I spent £16000) when I can pay £900 for any category C car from a salvage agent as some operators are doing.

I would like to employ more drivers but the increasing costs that the council are imposing on the industry makes that task of enrolling drivers and even keeping drivers more difficult.

We need the Council were seen to be pro-active in supporting the industry in Gwynedd, policing the rules and regulations that we are all supposed to abide by. Gwynedd Council and its Officers have no idea what is going on within the taxi industry, but it is about time that they were made accountable for their inaction.

I hope that the Licensing Committee take notice of the points that I have tried to make.

Yours Faithfully

*John Pritchard*

John H Pritchard